
# ASTUDIAETH ACHOS
# FFORWYR AC ALLDEITHIAU

Bu ysgol yng ngogledd Cymru yn rhoi cynnig ar y gweithgaredd hwn, gyda'r dysgwyr yn gweithio o fewn Cam cynnydd 3. Fe wnaethon nhw roi cynnig ar bob un o'r tasgau yn y gweithgaredd, gan ychwanegu tasgau newydd er mwyn ymestyn a datblygu'r dysgu a chreu thema tymor cyfan a oedd wedi'i hysbrydoli gan yr adnodd.



Mwynhaodd y dysgwyr ddysgu am Tori James a'i chyflawniad yn dringo Everest, gan ysbrydoli archwilio pellach mewn perthynas â theithio yn Eryri. Yn dilyn ymweliad gan Caradoc Jones, y Cymro cyntaf i gyrraedd copa Everest, aeth y dysgwyr ymlaen i ysgrifennu eu hymson eu hunain, yn seiliedig ar ddringo Everest.



Fe wnaeth ystyried taith Syr Henry Morton Stanley yn Affrica a'r rhwystrau a wynebodd wrth groesi afonydd yn y Congo, arwain y dysgwyr i ddylunio ac adeiladu eu pontydd eu hunain.

Wrth ganolbwyntio ar y sgiliau a'r doniau sydd eu hangen i fod yn fforiwr da, bu ymweliad gan y dringwr lleol, Ioan Doyle a chyfarfod Zoom gyda'r athletwr a'r anturiaethwr Huw Brassington, yn gyfle gwych i ddysgwyr ddeall y feddylfryd a'r bersonoliaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau personol a chorfforol.

Ymwelodd Marvin Pritchard, hyfforddwr personol lleol, â'r ysgol. Bu'n gweithio ar y cyd gyda'r dysgwyr i ddatblygu set o ymarferion corfforol i'r dosbarth ganolbwyntio arnynt am gyfnod o fis. Bu'r dysgwyr yn cofnodi data yn seiliedig ar yr ymarferion hyn, fel y gallent olrhain eu cynnydd dros gyfnod o amser.






Bu dysgwyr yn ymchwilio ymhellach i'r offer a ddefnyddiwyd gan fforwyr mewn gwahanol gyfnodau amser, gan gymharu offer heddiw gydag offer a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Gwnaed hyn trwy waith ymchwil ar y rhyngrwyd ac yn ystod ymweliad gan Cemlyn Jones o gwmni DMM, sy'n darparu offer ar gyfer dringwyr heddiw.










Mwynhaodd y dysgwyr y gweithgareddau rhyngweithiol, gan gynnwys cyfeiriannu ar y sgrîn, cyn mynd allan i'r awyr agored i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Defnyddiodd y dysgwyr diroedd yr ysgol i greu cwrs cyfeiriannu i ddysgwyr iau roi cynnig arno.

Fe wnaeth cynnal astudiath o fforwyr ysbrydoli'r staff addysgu i fynd â'r dysgwyr ar daith gerdded fwy heriol nag arfer yn y mynyddoedd. Ar y daith hon fe wnaethant arddangos hyder a chryfder o'r newydd a gwerthfawrogiad mawr o'u hardal leol, wrth roi cynnig ar Lwybr Watkin yn Eryri.



Arnodiad gan yr athro dosbarth –

"Roeddwn i'n hoff iawn o'r cwestiynau sydd wedi'u cyfuno o fewn yr adnodd rhyngweithiol. Penderfynias gyfuno'r dull hwn wrth addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Byddwn yn parhau i addasu dulliau cynllunio'r ysgol – gan ddefnyddio cwestiynau i arwain yr uned a cheisio dod â gwyddoniaeth a dysgu yn yr awyr agored i gymaint o'r cwricwlwm â phosib wrth symud ymlaen."